

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Antur Gofodwr

Wrth fynd i'r gwely neithiwr
A chau fy llenni blêr
edrychais ar y lleuad
a syllais ar y sêr
a meddwl wnes i am antur fawr
fyddai dianc i'r gofod cyn toriad gwawr.

Fe gysgais, dwi'n meddwl, am oriau hir
a'r nos y tu allan yn dawel a chlir.
Breuddwydiais am roced, un fawr, un wen,
yn hedfan yn chwim at y sêr uwchben,
a finnau'n ofodwr, y gorau a fu,
yn crwydro'r planedau a'r gofod mawr du.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

 **BookTrust Cymru**
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Antur Gofodwr

Wrth y bwrdd brecwast, dywedais wrth Mam
'Gwnes i hedfan i'r lleuad, i'r gofod pob cam',
ac, meddai hi, wrth fy nhyntu i'w chôl,
'Dyw hi ddim yn beth hawdd, mynd i'r gofod a'n ôl,
rhaid cael helmed, a sgidiau, a gwisg arian llawn,
a roced wrth gwrs, i ofodwr go-iawn.'

Felly es i i chwilio o amgylch y tŷ
I bob stafell, pob cwpwrdd, pob cornel fach du.
Ar silffoedd y gegin, ges i helmed go dda -
roedd hi'n hongian uwchben yr holl duniau ffa.
Roedd hi'n dipyn o sialens, ymestyn o'r llawr,
ond roedd hi'n gweddu i'r dim, er 'chydig yn fawr!



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

 **BookTrust Cymru**
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time




Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.




Antur Gofodwr

Estynnodd fy mam am hen 'sgidiau Taid,
Rhai cynnes a chadarn, a'u gwisgo oedd rhaid
am fod llanast y lleuad a strach-lwch y sêr
yn baeddu pob troed ac yn cosi pob ffêr.



Roedd cael siwt o arian yn broblem yn awr
ond gwnaethom ei datrys gyda rhodyn mawr
o ffoil, a thâp gludiog, ond roedd un peth ar ôl -
y roced - i hedfan i'r sêr ac yn ôl.



Yn brysur, yn brysur, fe aeth Mam a fi
i chwilio am ddeunydd o amgylch y tŷ,
ac allan o gardfwrdd, dychymyg, a glud
fe grewyd y roced, yr orau'n y byd!



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



BookTrust Cymru
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time





Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.



Antur Gofodwr

Trwy'r p'nawn ro'n i'n teithio, fan hyn a fan draw,
yn cwrdd ag estroniaid - a rhai yn rhoi braw!
Gwibio trwy'r gofod - welais i 'rioed y fath le -
Parcio ar blaned, a chael picnic i de!

Ymlaen ac ymlaen, jyst y roced a fi
ar wibdaith anhygoel, un llawn hwyl a sbri,
nes cyrraedd, o'r diwedd, i'r ddaear drachefn,
a pharcio y roced wrth ddrws y cefn.

Wrth fynd i'r gwely heno
A chau fy llenni blêr
Fe wenais ar y lleuad
A wincio ar y sêr
A chofio wnes i, am gyffro'r dydd
Am antur gofodwr, yn hedfan yn rhydd.

gan Iwan Garmon



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



BookTrust Cymru
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time